Senedd Cymru
Y Pwyllgor Busnes

# Diwygio'r Rheolau Sefydlog:

## Rheolau Sefydlog 2, 3, 4 a 5 mewn perthynas â Chofrestru Buddiannau'r Aelodau

Mawrth 2026

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog.

Mae'r adroddiad hwn yn argymell diwygiadau i Reolau Sefydlog 2, 3 a 4, a chyflwyno Rheol Sefydlog newydd 5A, mewn perthynas â Chofrestru Buddiannau'r Aelodau.

Os cânt eu derbyn, bydd y newidiadau arfaethedig yn dod i rym ar ddechrau'r Seithfed Senedd.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog fel y'u nodir yn Atodiad A. Mae'r Rheolau Sefydlog diwygiedig, os cânt eu cymeradwyo, yn Atodiad B.

senedd.cymru

# Cynnwys

1. Y cefndir .......... 4

Cofrestru a datgan buddiannau .......... 4

Ymchwiliad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad .......... 4

Y broses .......... 5

2. Cynigion ar gyfer newidiadau i'r Rheolau Sefydlog .......... 5

Egluro categorïau o dâl cofrestradwy .......... 5

Cofrestru swm y tâl a gafwyd .......... 7

Cyfeiriadau diangen at gyflogi aelodau o deulu'r Aelod ei hun .......... 7

Darparu a chyhoeddi enwau aelodau o'r teulu a gyflogir gan Aelodau eraill .......... 8

Cofnodi'r amser y bydd Aelod yn ymwneud â gweithgarwch cofrestradwy untro .......... 9

Cofrestru buddiannau eraill yn wirfoddol .......... 9

3. Penderfyniad .......... 11

Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog a nodiadau esboniadol .......... 12

Atodiad B: Y Rheolau Sefydlog, fel y'u diwygiwyd .......... 23

RHEOL SEFYDLOG 2 – Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau: Atodiad .......... 23

RHEOL SEFYDLOG 3 – Cofnodi cyflogaeth aelodau o deuluoedd Aelodau eraill gyda chymorth arian y Comisiwn. .......... 26

RHEOL SEFYDLOG 4 – Cofnodi'r Amser y bydd Aelod yn Ymwneud â Gweithgarwch Cofrestradwy .......... 29

RHEOL SEFYDLOG 5 – Cofnodi Aelodaeth o Gymdeithasau....................31

RHEOL SEFYDLOG 5A – Cofnodi buddiannau eraill yr Aelodau yn wirfoddol..........................................................................................................32

# 1. Y cefndir

## Cofrestru a datgan buddiannau

**1.** Mae adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006[1] ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i Reolau Sefydlog y Senedd gynnwys darpariaeth ar gyfer cofrestr o fuddiannau'r Aelodau ac ar gyfer cyhoeddi'r gofrestr honno a sicrhau ei bod ar gael i'r cyhoedd. Nodir y gofynion penodol ar gyfer cofrestru buddiannau'r Aelodau a hysbysu amdanynt yn Rheolau Sefydlog 2, 3, 4 a 5.[2] Ategir gofynion y Rheolau Sefydlog gan y 'Canllawiau ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Ariannol a Buddiannau eraill Aelodau' ("y Canllawiau"),[3] a gymeradwyir drwy benderfyniad gan y Senedd yn y Cyfarfod Llawn. Os bydd Aelod o'r Senedd yn methu â chofrestru buddiannau yn gywir o dan Reol Sefydlog 2, gall hynny fod yn drosedd o dan adran 36(7) o'r Ddeddf.

**2.** Yn unol â Rheol Sefydlog 22.2, rhaid i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor Safonau") "[g]oruchwylio'r trefniadau ar gyfer llunio Cofrestr Buddiannau'r Aelodau, y Cofnod o Gyflogaeth Aelodau'r Teulu Gyda Chymorth Arian y Comisiwn, y Cofnod o Amser y bydd Aelodau yn Ymwneud â Gweithgarwch Cofrestradwy a'r Cofnod o Aelodaeth o Gymdeithasau, a ffurf a chynnwys y Gofrestr a'r Cofnodion, a'r trefniadau ar gyfer cadw'r Gofrestr a'r Cofnodion a sicrhau eu bod yn hygyrch". O dan y cylch gorchwyl hwn, y Pwyllgor sy'n gyfrifol am lunio a chynnal y Canllawiau.

## Ymchwiliad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**3.** Cytunodd y Pwyllgor Safonau i adolygu a yw'r trefniadau ar gyfer cofrestru a datgan buddiannau yn dal i fod yn addas at y diben ar gyfer holl fusnes y Senedd, cyn i nifer yr Aelodau o'r Senedd gynyddu i 96. Cynhaliodd ymgynghoriad yng ngwanwyn 2023[4] a chytunodd i ymdrin â chofrestru buddiannau'r Aelodau yn gyntaf.

**4.** Gwnaeth y Pwyllgor Safonau gymariaethau ag arferion yn seneddau eraill y DU, rhannodd gynigion ar gyfer newid â rhanddeiliaid allweddol a chynhaliodd

[1] Deddf Llywodraeth Cymru 2006
[2] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Ionawr 2026
[3] Canllawiau i Aelodau o'r Senedd ar gofrestru, datgan a chofnodi buddiannau ariannol a buddiannau eraill, Ionawr 2024, Senedd Cymru
[4] Tudalen ymgynghoriad yr Ymchwiliad i Gofrestru a Datgan Buddiannau, Senedd Cymru

sesiynau galw heibio gyda'r Aelodau. Yna, lluniodd gynigion manwl a chytuno arnynt, ac, unwaith eto, ymgynghorodd â rhanddeiliaid allweddol arnynt.

**5.** Cytunodd y Pwyllgor Safonau ar nifer o argymhellion i newid y rheolau ynghylch cofrestru buddiannau, a nodir yn ei adroddiad, Ymchwiliad i Gofrestru a Datgan Buddiannau: Cofrestru Buddiannau,[5] a gyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf 2025. Ysgrifennodd y Pwyllgor Safonau at y Pwyllgor Busnes ar 16 Gorffennaf 2025 i dynnu sylw at y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog yr oedd wedi'u hargymell fel rhan o'i adolygiad.

**6.** Trafododd y Pwyllgor Busnes yr argymhellion a wnaed iddo ynghylch newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn ei gyfarfodydd ar 18 Medi a 9 Hydref 2025, a derbyniodd yr argymhellion hynny mewn egwyddor.

### Y broses

**7.** Yn unol â'i gyfrifoldeb am gynnig newidiadau i'r Rheolau Sefydlog o dan Reol Sefydlog 33.2, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i gynnig y diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog a nodir yn yr adroddiad hwn, i'w cytuno gan y Senedd yn y Cyfarfod Llawn. Bydd angen i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad gyflwyno newidiadau cysylltiedig i'r Canllawiau i'r Senedd gytuno arnynt drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn, a bydd angen i'r Llywydd gymeradwyo'r newidiadau canlyniadol i'r ffurflen ragnodedig.

## 2. Cynigion ar gyfer newidiadau i'r Rheolau Sefydlog

**8.** Mae'r newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog o ran Buddiannau'r Aelodau (yr atodiad i Reol Sefydlog 2; Rheolau Sefydlog 3 a 4; a Rheol Sefydlog newydd 5A) wedi'u tracio yn Atodiad A, ac mae fersiwn lân o'r Rheolau Sefydlog newydd arfaethedig yn Atodiad B.

### Egluro categorïau o dâl cofrestradwy

**9.** Mae'r diwygiadau arfaethedig i'r categorïau yn yr atodiad i Reol Sefydlog 2 yn gweithredu argymhelliad 1 yn adroddiad y Pwyllgor Safonau, a oedd yn argymell y dylid uno categorïau 1, 2, 3 a 5 o'r Gofrestr i greu un categori eang a

[5] Ymchwiliad i Gofrestru a Datgan Buddiannau: Cofrestru Buddiannau, y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Senedd Cymru, Gorffennaf 2025

fyddai'n cael ei ddefnyddio i gynnwys yr holl fathau o gyflogaeth yr Aelodau am dâl, gan gadw'r lefel bresennol o wybodaeth sy'n ofynnol.

**10.** Ar hyn o bryd, mae gan y Senedd bedwar categori y mae'n ofynnol i'r Aelodau gofrestru gwahanol fathau o gyflogaeth gyda thâl odanynt:

- Categori 1: Swyddi cyfarwyddwyr
- Categori 2: Cyflogaeth, swydd, proffesiwn ac yn y blaen am dâl
- Categori 3: Enwau cleientiaid (gwasanaethau)
- Categori 5: Contractau gyda Chomisiwn y Senedd neu Lywodraeth Cymru

**11.** Yn ei adroddiad, nododd y Pwyllgor Safonau fod gan Dŷ'r Cyffredin, Senedd yr Alban, a Chynulliad Gogledd Iwerddon i gyd un categori eang ar gyfer cofnodi taliadau.

**12.** Nododd y Pwyllgor Safonau hefyd:

- nad oedd unrhyw beth wedi'i gofrestru o dan gategori 3 yn ystod y Chweched Senedd ac mai dim ond dau Aelod a ddefnyddiodd y categori hwnnw yn y Bedwaredd a'r Bumed Senedd; ac
- mai dim ond dau Aelod oedd wedi cofrestru buddiannau o dan gategori 5 yn ystod y Chweched Senedd a thri yn y Bumed Senedd.

**13.** Mynegodd Comisiynydd Safonau'r Senedd ("y Comisiynydd") gefnogaeth i gynnig y Pwyllgor Safonau i uno categorïau 1, 2, 3 a 5 o'r Gofrestr. Nid oedd yr un ymatebydd i'r ymgynghoriad wedi'i dargedu yn gwrthwynebu'r cynnig hwn.

**14.** Ni fydd uno categorïau 1, 2, 3 a 5 yn effeithio ar y wybodaeth y bydd yn ofynnol i'r Aelodau ei darparu, oherwydd bydd elfennau craidd y categorïau sy'n cael eu dileu yn cael eu cadw. Dylai hyn helpu i symleiddio'r broses gofrestru a sicrhau bod y gofynion yn gliriach.

**15.** Mae'r diwygiadau hefyd yn egluro mai dim ond i'r Aelod y mae'r eithriad sy'n nodi 'ac eithrio aelodaeth o'r Senedd' yn gymwys, ac nid i'w bartner nac unrhyw blentyn dibynnol iddo.

**16.** Trafododd y Pwyllgor Busnes argymhelliad y Pwyllgor Safonau a chytunodd i gynnig y dylid uno categorïau 1, 2, 3 a 5 o'r atodiad i Reol Sefydlog 2 i greu un

categori eang a ddefnyddir i gynnwys yr holl fathau o gyflogaeth yr Aelodau am dâl, gan gadw'r lefel bresennol o wybodaeth sy'n ofynnol.

## Cofrestru swm y tâl a gafwyd

**17.** Mae'r diwygiadau arfaethedig i'r atodiad i Reol Sefydlog 2 hefyd yn gweithredu argymhelliad 2 yn adroddiad y Pwyllgor Safonau, sy'n argymell y dylid diwygio Rheol Sefydlog 2 i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelodau gofrestru swm y tâl y maent wedi'i gael, neu y maent yn disgwyl ei gael, ar gyfer pob gweithgarwch cofrestradwy.

**18.** Yn ei adroddiad, mae'r Pwyllgor Safonau yn nodi bod pob deddfwrfa arall yn y DU, ac eithrio Tŷ'r Arglwyddi, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau ddarparu'r wybodaeth hon. Nid yw rheolau'r Senedd ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol cofrestru'r wybodaeth hon.

**19.** Trafododd y Pwyllgor Busnes argymhelliad y Pwyllgor Safonau a chytunodd i gynnig y dylid diwygio Rheol Sefydlog 2 i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelodau gofrestru swm y tâl y maent wedi'i gael, neu y maent yn disgwyl ei gael, ar gyfer pob gweithgarwch cofrestradwy.

## Cyfeiriadau diangen at gyflogi aelodau o deulu'r Aelod ei hun

**20.** Mae diwygiadau i Reolau Sefydlog 3.1, 3.3 a 3.4 yn gweithredu argymhelliad 10, sy'n argymell y dylid dileu cyfeiriadau at gyflogi aelodau o deulu'r Aelod ei hun.

**21.** Ar hyn o bryd, mae Rheol Sefydlog 3 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod roi hysbysiad os yw'n cyflogi (naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) aelod o'i deulu, neu aelod o deulu Aelod arall, gan ddefnyddio arian Comisiwn y Senedd.

**22.** Roedd Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau 2019-20[6] yn dileu, o ddechrau'r Seithfed Senedd, y ddarpariaeth i Aelodau gyflogi aelodau o'u teulu eu hunain gydag arian y Comisiwn. Bydd Aelodau'n dal i allu cyflogi aelodau o deuluoedd Aelodau eraill. Os gwnânt hynny, rhaid iddynt roi hysbysiad o dan Reol Sefydlog 3. Felly, mae'r Pwyllgor Safonau wedi argymell y dylid diwygio Rheol Sefydlog 3.1 o ddechrau'r Seithfed Senedd i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

[6] Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau, y Bwrdd Taliadau, Mawrth 2025

**23.** Trafododd y Pwyllgor Busnes argymhelliad y Pwyllgor Safonau a chytunodd i gynnig y dylid cael gwared ar y cyfeiriadau at gyflogi aelodau o deulu'r Aelod ei hun o Reol Sefydlog 3.

## Darparu a chyhoeddi enwau aelodau o'r teulu a gyflogir gan Aelodau eraill

**24.** Mae'r diwygiad arfaethedig i Reol Sefydlog 3.7 yn gweithredu argymhelliad 11, sy'n argymell y dylid gwneud eithriad ar gyfer cyhoeddi enwau aelodau o'r teulu pan fônt yn cael eu cyflogi gan Aelodau eraill. Mae Rheol Sefydlog 3.7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd gadw cofnod o'r hysbysiadau a roddir gan yr Aelodau o dan Reol Sefydlog 3 a chyhoeddi'r cofnod hwnnw. Argymhellodd y Pwyllgor Safonau y dylid addasu'r gofyniad fel na fydd enwau aelodau o'r teulu a gyflogir gan Aelodau eraill yn cael eu cyhoeddi.

**25.** Mae Rheol Sefydlog 3.2 yn diffinio 'aelod o deulu' fel partner, plentyn, ŵyr neu wyres, rhiant, taid neu nain, brawd neu chwaer, nai neu nith, neu ewythr neu fodryb Aelod neu bartner Aelod, ac mae'n cynnwys llys-berthnasau, hanner-perthnasau, perthnasau maeth a pherthnasau mabwysiadol. Mae Rheol Sefydlog 3.2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau ddarparu gwybodaeth benodol, y mae'n ofynnol ei chyhoeddi wedyn o dan Reol Sefydlog 3.7, gan gynnwys enw llawn y cyflogai a pherthynas y cyflogai â'r Aelod.

**26.** Wrth ymateb i ymgynghoriad cychwynnol y Pwyllgor Safonau, roedd y Comisiynydd a'r Grŵp Llafur ill dau o'r farn y dylid dileu'r gofyniad i ddarparu enw llawn aelod o'r teulu a gyflogir gan Aelod arall gyda chymorth arian y Comisiwn, a hynny ar sail diogelwch a phreifatrwydd.

**27.** Trafododd y Pwyllgor Safonau y sylwadau hyn, ac roedd ei ail ymgynghoriad yn cynnwys cynnig naill ai y dylid dileu'r gofyniad i ddarparu'r enw, neu y dylid darparu'r enw ond peidio â'i gyhoeddi. Wrth ymateb, cynigiodd y Comisiynydd y dylid darparu'r enw i'r Cofrestrydd ond heb ei gyhoeddi yn y gofrestr, ac y gellid ei ddarparu i'r Comisiynydd ar gais, heb fod angen Hysbysiad i Gyflwyno o dan adran 12 o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009.[7]

**28.** Cytunodd y Pwyllgor Safonau â chynnig y Comisiynydd, ac argymhellodd i'r Pwyllgor Busnes y dylid diwygio Rheol Sefydlog 3.7 fel bod rhaid darparu enw'r aelod o'r teulu i'r Cofrestrydd, ond nad oes rhaid ei gyhoeddi yn y gofrestr.

[7] Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009

**29.** Trafododd y Pwyllgor Busnes argymhelliad y Pwyllgor Safonau, a chytunodd i gynnig y dylid addasu'r gofyniad i gyhoeddi cofnod o hysbysiadau a wneir gan Aelodau o dan Reol Sefydlog 3 fel na fydd enwau aelodau o'r teulu a gyflogir gan Aelodau eraill yn cael eu cyhoeddi.

## Cofnodi'r amser y bydd Aelod yn ymwneud â gweithgarwch cofrestradwy untro

**30.** Mae'r diwygiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 4 yn gweithredu argymhelliad 12 yn adroddiad y Pwyllgor Safonau, sy'n argymell y dylid diwygio Rheol Sefydlog 4 er mwyn gallu cofnodi'r amser sy'n gysylltiedig â gweithgarwch cofrestradwy untro.

**31.** Ystyrir bod buddiannau o dan gategorïau presennol 1 a 2 yn yr atodiad i Reol Sefydlog 2 yn 'weithgarwch cofrestradwy' at ddibenion Rheol Sefydlog 4. Felly, rhaid i'r Aelodau hefyd roi hysbysiad o dan Reol Sefydlog 4 ar yr un pryd â chofrestriad o dan gategori 1 neu 2, gan nodi sawl awr yr wythnos y mae'r Aelod yn ei dreulio ar gyfartaledd yn gwneud pob gweithgarwch cofrestradwy.

**32.** Nododd y Pwyllgor Safonau nad yw'n hawdd cymhwyso'r bandiau o dan Reol Sefydlog 4.3 (llai na 5 awr yr wythnos; rhwng 5 ac 20 awr yr wythnos; mwy nag 20 awr yr wythnos) i ddarnau o waith untro lle nad yw cyfartaledd wythnosol yn briodol, yn gywir nac yn dryloyw.

**33.** Bydd y newidiadau arfaethedig yn galluogi Aelodau sydd wedi ymwneud â gweithgarwch cofrestradwy untro i gofnodi'r amser a dreuliwyd yn gwneud y gweithgaredd penodol hwnnw, yn hytrach na dim ond nodi band sy'n dynodi faint o amser yr wythnos a dreuliwyd yn gwneud gweithgarwch.

**34.** Trafododd y Pwyllgor Busnes argymhelliad y Pwyllgor Safonau a chytunodd i gynnig y dylid diwygio Rheol Sefydlog 4 er mwyn gallu cofnodi amser sy'n gysylltiedig â gweithgarwch cofrestradwy untro.

## Cofrestru buddiannau eraill yn wirfoddol

**35.** Mae cyflwyno Rheol Sefydlog newydd 5A yn gweithredu argymhelliad 13 yn adroddiad y Pwyllgor Safonau, sy'n argymell y dylid cyflwyno categori gwirfoddol newydd er mwyn galluogi'r Aelodau i gofnodi unrhyw fuddiannau ariannol neu fuddiannau eraill y maent am eu cyhoeddi, ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn unrhyw un o'r categorïau gorfodol o dan Reol Sefydlog 2.

**36.** Mae gan lawer o seneddau eraill y DU naill ai categori 'amrywiol' neu gategori 'gwirfoddol':

- mae gan Dŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi a Chynulliad Gogledd Iwerddon gategorïau 'amrywiol' y mae rhaid i'r Aelodau gofrestru unrhyw weithgarwch gyda thâl nad yw'n perthyn yn amlwg i unrhyw gategori arall odanynt;

- mae gan Senedd yr Alban gategori 'gwirfoddol' lle caiff yr Aelodau, os dymunant, gofrestru buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill nad ydynt yn perthyn i'r categorïau gorfodol, neu nad ydynt yn cyrraedd y trothwyon ar gyfer cofrestru gorfodol o dan y categorïau hynny.

**37.** Yn adroddiad y Pwyllgor Safonau, nodwyd, yng nghyd-destun categori 10 (aelodaeth neu gadeiryddiaeth gyda thâl neu heb dâl o unrhyw gorff a ariennir gan Gomisiwn y Senedd neu Lywodraeth Cymru) a Rheol Sefydlog 5 (cofnodi aelodaeth o gymdeithasau), fod llawer o enghreifftiau o Aelodau o'r Senedd yn cofrestru neu'n cofnodi aelodaeth o sefydliadau na fwriedir i'r gofynion hynny eu cwmpasu. Mae llawer o enghreifftiau hefyd o Aelodau'n cofrestru buddiannau megis rhoddion a lletygarwch nad ydynt yn cyrraedd y trothwy gwerth a fyddai'n ei gwneud yn orfodol eu cofrestru.

**38.** Nododd y Pwyllgor Safonau y byddai cyflwyno categori 'amrywiol' o dan Reol Sefydlog 2, fel categori newydd ar yr un sail â'r categorïau eraill, yn gwneud cofrestru buddiannau o'r fath yn ddarostyngedig i'r un gofynion statudol a'r un gofynion o dan y Rheolau Sefydlog â'r categorïau presennol. Byddai hynny'n cynnwys gofyniad i ddatgan y buddiannau hynny ac o bosibl i beidio â phleidleisio ar drafodion perthnasol, gorfodi'r uchafswm o bedair wythnos ar gyfer cofrestru buddiannau o'r fath, a'r ffaith y byddai methu â chofrestru buddiant o'r fath yn drosedd. Roedd y Pwyllgor Safonau o'r farn y byddai cymhwyso'r amodau hynny i'r hyn a fydd, yn anochel, yn gategori mwy penagored o fuddiannau na'r rhai sy'n bodoli ar hyn o bryd yn peri risgiau diangen.

**39.** Felly, penderfynodd y Pwyllgor Safonau argymell y dylai'r Senedd gyflwyno categori 'gwirfoddol' a fyddai ar wahân i'r categorïau a nodir yn Rheol Sefydlog 2. Byddai hyn yn galluogi'r Aelodau i gyhoeddi o'u gwirfodd unrhyw fuddiannau ariannol neu fuddiannau eraill nad ydynt yn bodloni gofynion Rheol Sefydlog 2.

**40.** Gallai buddiannau o'r fath gynnwys buddiannau ariannol nad ydynt yn dod o dan unrhyw un o'r categorïau gorfodol, neu sy'n is nag unrhyw drothwyon a

fyddai'n ei gwneud yn ofynnol eu cofrestru, neu fuddiannau aelodau o'r teulu heblaw partneriaid neu blant dibynnol. Byddai hefyd yn cynnig lle priodol i gofnodi aelodaeth o gymdeithasau neu gyrff eraill nad ydynt yn dod o dan ofynion Categori 10 neu Reol Sefydlog 5, a rhoddion neu letygarwch a gynigiwyd ond a wrthodwyd.

**41.** Er mwyn lliniaru unrhyw risg o ddryswch a allai ddeillio o gynnwys y categori gwirfoddol o dan Reol Sefydlog 2, sydd fel arall yn cynnwys gofynion gorfodol, cynigir y dylid creu categori newydd ar wahân o dan ei Reol Sefydlog ei hun. Byddai'r Rheol Sefydlog 5A newydd hon yn caniatáu cofnodi buddiannau amrywiol yn wirfoddol. Ni fydd unrhyw derfyn ar y cyfnod ar gyfer cofnodi buddiannau o'r fath, a chan y byddai hynny'n cael ei wneud yn wirfoddol, ni fydd unrhyw gosb am beidio â chofrestru buddiannau o'r fath.

**42.** Trafododd y Pwyllgor Busnes argymhelliad y Pwyllgor Safonau a chytunodd i gynnig y dylid cyflwyno Rheol Sefydlog newydd 5A a fyddai'n darparu ar gyfer categori gwirfoddol er mwyn galluogi'r Aelodau i gofnodi unrhyw fuddiannau ariannol neu fuddiannau eraill y maent am eu cyhoeddi, ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn unrhyw un o'r categorïau gorfodol o dan Reol Sefydlog 2.

# 3. Penderfyniad

**43.** Ar 26 Tachwedd 2025, cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol i gynnig y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a nodir yn yr adroddiad hwn ac yn Atodiad A. Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r Rheol Sefydlog newydd arfaethedig yn Atodiad B.

**44.** Os cânt eu derbyn, bydd y newidiadau arfaethedig yn dod i rym ar ddechrau'r Senedd nesaf ym mis Mai 2026.

# Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog a nodiadau esboniadol

| RHEOL SEFYDLOG 2 – Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau: Atodiad | |
|---|---|
| Y Buddiannau Cofrestradwy | Cadw'r pennawd |
| 5. Dyma'r buddiannau cofrestradwy:<br><br>(i) swyddi cyfarwyddwyr, cyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth (ac eithrio, yn achos yr Aelod, aelodaeth o'r Senedd), y mae'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod yn cael tâl amdanynt, neu y mae gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, unrhyw fuddiant ariannol ynddynt; gan gynnwys:<br><br>a) yn achos yr Aelod yn unig, swm y tâl a gafwyd, neu y disgwylir ei gael, ar gyfer pob gweithgarwch cofrestradwy;<br><br>b) enwau cleientiaid pan fydd y buddiannau'n cynnwys gwasanaethau sy'n deillio o'i aelodaeth o'r Senedd. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br><br>Mae'r newidiadau arfaethedig yn uno categorïau 1, 2, 3 a 5 o'r Gofrestr, a restrir yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 2, i greu un categori eang a ddefnyddir i gynnwys yr holl fathau o gyflogaeth yr Aelodau am dâl, gan gadw'r lefel bresennol o wybodaeth sy'n ofynnol.<br><br>Yn ogystal â chadw'r holl ofynion presennol drwy gadw elfennau craidd y categorïau sy'n cael eu dileu yn a) a b) mae'r newidiadau arfaethedig hefyd yn gosod gofyniad newydd ar Aelodau i gofrestru swm y tâl a gafwyd, neu y disgwylir ei gael, ar gyfer pob gweithgarwch cofrestradwy.<br><br>Cynigir hefyd y dylid manteisio ar y cyfle i egluro mai dim ond i'r Aelod y mae'r eithriad sy'n nodi 'ac eithrio aelodaeth o'r Senedd' yn gymwys ac nid i'w bartner nac i unrhyw blentyn dibynnol iddo. |

| | |
|---|---|
| neu sy'n gysylltiedig â hynny mewn unrhyw fodd; ac<br><br>c) a yw'r buddiant yn ymwneud ag unrhyw gwmni cyhoeddus neu breifat neu unrhyw gorff arall sydd wedi tendro, neu sy'n tendro, am gontract gyda'r Comisiwn neu Lywodraeth Cymru, neu sy'n meddu ar gontract o'r fath.<br><br>~~(i) swyddi cyfarwyddwyr am dâl a ddelir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu gan unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, mewn cwmnïau cyhoeddus a phreifat gan gynnwys swyddi cyfarwyddwyr na thelir cyflog iddynt yn unigol ond lle telir cyflog drwy gwmni arall yn yr un grŵp;~~<br><br>~~(ii) cyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth (ac eithrio aelodaeth o'r Senedd) y mae'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod yn cael tâl amdanynt, neu y mae gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod sy'n hŷn nag un ar bymtheg mlwydd oed, unrhyw fuddiant ariannol ynddynt, gan gynnwys derbyn unrhyw arian cyhoeddus;~~<br><br>~~(iii) enwau cleientiaid pan fydd y buddiannau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (i) a (ii)~~ | Cynigir y newidiadau eraill er mwyn sicrhau bod y derminoleg yn gyson yn y Rheolau Sefydlog. |

| | |
|---|---|
| ~~uchod yn cynnwys gwasanaethau gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu gan unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod sy'n hŷn nag un ar bymtheng mlwydd oed, sy'n deillio o'i aelodaeth o'r Senedd, neu sy'n gysylltiedig â hynny mewn unrhyw fodd;~~<br><br>~~(iv)~~(ii) rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol y mae eu gwerth yn uwch na'r hyn a ragnodir mewn unrhyw benderfyniad gan y Senedd, a dderbynnir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, oddi wrth gwmni, sefydliad neu berson ac sy'n deillio o aelodaeth o'r Senedd neu sy'n gysylltiedig â hynny mewn unrhyw fodd;<br><br>(~~v~~) ~~unrhyw dâl neu fudd materol arall y mae'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod yn ei gael oddi wrth unrhyw gwmni preifat neu gyhoeddus neu unrhyw gorff arall, hyd y gŵyr yr Aelod, sydd wedi tendro, neu sy'n tendro, am gontract gyda Chomisiwn y Senedd neu Lywodraeth Cymru, neu sy'n meddu ar gontract o'r fath;~~<br><br>~~(vi)~~(iii) nawdd ariannol (a) fel ymgeisydd i'w ethol i'r Senedd, pan fydd y nawdd mewn unrhyw achos, hyd y gŵyr yr Aelod, yn fwy na 25 y cant o gostau etholiad yr ymgeisydd, neu (b) | |

| | |
|---|---|
| fel Aelod o'r Senedd oddi wrth unrhyw unigolyn neu sefydliad. Wrth gofrestru buddiant o'r fath, rhaid i'r Aelod ddatgan a yw unrhyw nawdd o'r fath yn cynnwys unrhyw daliad i'r Aelod neu unrhyw fudd materol neu fantais faterol;<br><br>~~(vii)~~ (iv) yn ddarostyngedig i unrhyw benderfyniad gan y Senedd, ymweliadau tramor a wneir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, sy'n deillio o'i aelodaeth o'r Senedd neu sy'n gysylltiedig â hynny mewn unrhyw fodd pan na fydd cost unrhyw ymweliad o'r fath wedi'i dalu'n llwyr gan yr Aelod neu ag arian a ddarparwyd gan y Senedd neu gan Senedd y Deyrnas Unedig neu unrhyw sefydliad y mae'r Senedd yn aelod ohono;<br><br>~~(viii)~~ (v) unrhyw dir ac eiddo i'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, tir neu eiddo i bartner yr Aelod neu i unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, y mae iddo werth sylweddol fel y'i rhagnodwyd mewn unrhyw benderfyniad gan y Senedd neu y ceir incwm sylweddol ohono, ac eithrio unrhyw gartref a ddefnyddir at ddibenion preswylfa bersonol gan yr Aelod, partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod;<br><br>~~(viii)~~ (vi) enwau cwmnïau neu gyrff eraill y mae gan yr Aelod, naill ai ar ei ben ei hun neu gyda phartner yr Aelod neu unrhyw blentyn | |

| | |
|---|---|
| dibynnol i'r Aelod, neu ar eu rhan hwy, fuddiant llesiannol ynddynt, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod fuddiant llesiannol ynddynt, mewn cyfranddaliadau y mae eu gwerth ar y farchnad yn fwy nag un y cant o’r cyfalaf cyfranddaliadol a ddyroddwyd, neu’n llai nag un y cant ond yn fwy na swm a ragnodwyd mewn unrhyw benderfyniad gan y Senedd;<br>~~(ix)~~ (vii) aelodaeth neu gadeiryddiaeth gyda thâl neu’n ddi-dâl a ddelir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, ar unrhyw gorff a ariennir yn llwyr neu’n rhannol â chyllid a ddarparwyd gan ~~G~~y Comisiwn~~ y Senedd~~ neu Lywodraeth Cymru, lle y mae'r Aelod yn gwybod, neu y dylai fod wedi gwybod, am y cyllid a ddarparwyd gan ~~G~~y Comisiwn~~ y Senedd~~ neu Lywodraeth Cymru. | |

## RHEOL SEFYDLOG 3 – Cofnodi cyflogaeth aelodau~~’r teulu~~ o deuluoedd Aelodau eraill gyda chymorth arian y Comisiwn

| | |
|---|---|
| 3.1. Rhaid i Aelod sydd ar unrhyw adeg, gyda chymorth arian y Comisiwn, yn cyflogi, naill ai’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, berson y mae’r Aelod hwnnw’n gwybod ei fod yn ~~aelod o deulu’r Aelod hwnnw neu’n~~ aelod o deulu Aelod arall roi hysbysiad | **Diwygio’r Rheol Sefydlog**<br>Mae’r newid arfaethedig yn cael gwared ar y cyfeiriad at gyflogi aelod o deulu’r Aelod ei hun. Mae’r newid hwn yn adlewyrchu’r ffaith bod Penderfyniad 2019-20 ar Gyflogau a Lwfansau’r Aelodau yn cael gwared ar y |

| | | |
|---|---|---|
| | o dan Reol Sefydlog 3, a hynny heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir yn Rheol Sefydlog 3.4. | ddarpariaeth i Aelodau gyflogi aelodau o'u teulu eu hunain gydag arian y Comisiwn o ddechrau'r Seithfed Senedd. |
| 3.2. | Yn Rheol Sefydlog 3:<br>(i) ystyr "aelod o deulu" yw:<br>(a) partner Aelod;<br>(b) plentyn, ŵyr neu wyres Aelod;<br>(c) rhiant, taid neu nain Aelod;<br>(d) brawd neu chwaer Aelod;<br>(e) nai neu nith Aelod; neu<br>(f) ewythr neu fodryb Aelod;<br>(ii) ystyr "partner" yw priod, partner sifil neu un o gwpl pa un ai o'r un rhyw neu o'r rhyw arall sy'n byw gyda'i gilydd, er nad ydynt yn briod, ac sy'n trin ei gilydd fel dau briod;<br>(iii) mae'r ymadroddion "plentyn", "ŵyr", "wyres", "rhiant", "taid", "nain", "brawd", "chwaer", "ewythr" a "modryb" yr un mor gymwys i hanner-perthnasau, llys-berthnasau, perthnasau maeth a pherthnasau mabwysiadol ac maent yn gymwys hefyd i bersonau sydd â'r berthynas o dan sylw â phartner yr Aelod;<br>(iv) ystyr "arian y Comisiwn" yw symiau a delir gan y Comisiwn ar ffurf lwfansau o dan adrannau 20, 21 neu 53 o'r Ddeddf. | **Cadw'r Rheol Sefydlog**<br>Rheol Sefydlog wedi'i chynnwys er gwybodaeth yn unig. |

| | |
|---|---|
| 3.3 Rhaid i'r hysbysiad sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 3 gynnwys yr wybodaeth ganlynol:<br>(i) ~~enw'r Aelod;~~ *[Rheol Sefydlog wedi'i dileu drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar xx]*<br>(ii)~~os yw'r cyflogai yn aelod o deulu Aelod arall neu Aelodau eraill,~~ enw'r Aelod ~~arall hwnnw~~ neu enwau'r Aelodau ~~eraill hynny~~ y mae'r cyflogai yn aelod o'i deulu neu o'u teulu;<br>(iii) enw llawn y cyflogai;<br>(iv) perthynas y cyflogai ~~â'r Aelod (neu, os yw'n briodol,~~ â'r Aelod neu'r Aelodau y cyfeirir atynt yn (ii)~~)~~;<br>(v) ym mha swyddogaeth y mae'r cyflogai wedi'i gyflogi, gan gynnwys unrhyw deitl swydd;<br>(vi) y dyddiad y dechreuodd y gyflogaeth;<br>(vii) os yw'r gyflogaeth wedi dod i ben, y dyddiad y daeth i ben; ac<br>(viii) yr oriau y mae'r cyflogai wedi'i gontractio i'w gweithio bob wythnos. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newidiadau arfaethedig yn adlewyrchu'r cynnig i gael gwared ar y cyfeiriadau at gyflogi aelod o deulu'r Aelod ei hun yn Rheol Sefydlog 3.1. |
| 3.4. Rhaid i'r hysbysiad gael ei roi:<br>(i) cyn pen wyth wythnos ar ôl y dyddiad y bydd yr Aelod yn tyngu'r llw teyrngarwch neu'n rhoi'r cadarnhad teyrngarwch; neu<br>(ii) cyn pen pedair wythnos ar ôl:<br>(a) y tro cyntaf i'r aelod o deulu gael taliad gyda chymorth arian y Comisiwn;<br>(b) y dyddiad y daw'r cyflogai yn ~~aelod o deulu'r Aelod hwnnw neu'n~~ aelod o deulu Aelod arall; neu | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newidiadau arfaethedig yn cael gwared ar gyfeiriadau at gyflogi aelod o deulu'r Aelod ei hun i adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 3.1. |

| | |
|---|---|
| (c) y dyddiad y daw'r Aelod yn ymwybodol am y tro cyntaf o'r ffaith bod y cyflogai yn ~~aelod o deulu'r Aelod hwnnw neu'n~~ aelod o deulu Aelod arall,<br>pa un bynnag yw'r olaf. | |
| 3.5. Os:<br>(i) oes hysbysiad wedi'i roi o dan Reol Sefydlog 3; a<br>(ii) bod unrhyw newid wedi bod yn yr wybodaeth a gynhwyswyd yn yr hysbysiad hwnnw,<br>rhaid i'r Aelod, cyn pen pedair wythnos ar ôl dyddiad y newid hwnnw, roi hysbysiad ynglŷn â'r newid hwnnw. | **Cadw'r Rheol Sefydlog**<br>Rheol Sefydlog wedi'i chynnwys er gwybodaeth yn unig. |
| 3.6. Rhaid i hysbysiad o dan Reol Sefydlog 3.1 neu o dan Reol Sefydlog 3.5 gael ei roi drwy lenwi a llofnodi'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd at y diben a'i chyflwyno i'r Clerc. | **Cadw'r Rheol Sefydlog**<br>Rheol Sefydlog wedi'i chynnwys er gwybodaeth yn unig. |
| 3.7. Rhaid i'r Llywydd gadw cofnod o'r hysbysiadau a roddir gan yr Aelodau o dan Reol Sefydlog 3 a rhaid iddo gyhoeddi'r cofnod a threfnu bod copi ar gael i'w archwilio gan yr Aelodau a chan y cyhoedd, ond nid oes angen cyhoeddi enw'r cyflogai a ddarperir o dan Reol Sefydlog 3.3(iii). | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br>Mae'r newidiadau arfaethedig yn eithrio cyhoeddi enwau aelodau o'r teulu pan fônt yn cael eu cyflogi gan Aelodau eraill. |
| 3.8. Mae'r Aelodau o dan ddyletswydd barhaus i sicrhau bod y cofnod o hysbysiadau yn cynnwys y manylion cywir a hysbyswyd ganddynt o dan Reolau Sefydlog 3.1 neu 3.5, a hynny drwy ei archwilio o dro i dro. | **Cadw'r Rheol Sefydlog**<br>Rheol Sefydlog wedi'i chynnwys er gwybodaeth yn unig. |

| 4. RHEOL SEFYDLOG 4 – Cofnodi'r Amser y bydd Aelod yn Ymwneud â Gweithgarwch Cofrestradwy | |
|---|---|
| Cyffredinol | Cadw'r pennawd |
| 4.1. Pan fydd yn ofynnol i Aelod gofrestru buddiant, yn unol â Rheol Sefydlog 2.2, rhaid i'r Aelod hwnnw ar yr un pryd, pan fydd y buddiant hwnnw hefyd yn weithgarwch cofrestradwy, roi hysbysiad o dan Reol Sefydlog 4. | **Cadw'r Rheol Sefydlog**<br>Rheol Sefydlog wedi'i chynnwys er gwybodaeth yn unig. |
| 4.2 At ddibenion Rheol Sefydlog 4, mae "gweithgarwch cofrestradwy" yn fuddiant cofrestradwy sy'n dod o fewn ~~naill ai:~~<br>~~(i)~~ is-baragraff (i) o baragraff 5 o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 ~~(swyddi cyfarwyddwyr am dâl); neu~~<br>~~(ii) is-baragraff (ii) o'r baragraff hwnnw (cyflogaeth, swyddi, masnachau, proffesiynau neu alwedigaethau),~~<br>ac sy'n ymwneud â'r Aelod ei hun (yn hytrach na phartner yr Aelod neu blentyn dibynnol i'r Aelod). | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br>Mae'r newidiadau arfaethedig yn adlewyrchu'r cynnig i uno categorïau 1, 2, 3 a 5 o'r Gofrestr, a restrir yn Rheol Sefydlog 2, i greu un categori eang a ddefnyddir i gynnwys yr holl fathau o gyflogaeth yr Aelodau am dâl. |
| Hysbysiad | Cadw'r pennawd |
| 4.3. Mae hysbysiad i'w roi drwy gyfeirio at y ~~bandiau~~categorïau canlynol:<br>(i)~~Band~~ Categori 1: Llai na 5 awr yr wythnos;<br>(ii)~~Band~~ Categori 2: Rhwng 5 ac 20 awr yr wythnos;<br>(iii)~~Band~~ Categori 3: Mwy nag 20 awr yr wythnos;<br>(iv) Categori 4: Gweithgarwch untro, gyda'r amser perthnasol a dreuliwyd wedi'i bennu. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br>Mae'r newidiadau arfaethedig yn cael gwared ar gyfeiriadau at fandiau ac yn cyfeirio yn hytrach at gategorïau. Maent hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod categori newydd wedi'i greu a fydd yn caniatáu i Aelodau gofnodi'r amser a dreuliwyd yn gwneud gweithgarwch cofrestradwy untro pan nad yw cyfartaledd wythnosol yn briodol. |

| | |
|---|---|
| | |
| 4.4. Rhaid i'r hysbysiad nodi i ba un o'r ~~bandiau~~<u>categorïau</u> hynny y bydd cyfartaledd nifer yr oriau yr wythnos y bydd yr Aelod yn ei dreulio (neu y disgwylir iddo ei dreulio) yn gwneud pob gweithgarwch cofrestradwy yn berthnasol <u>neu, yn achos gweithgarwch untro, faint o amser a dreuliwyd gan yr Aelod yn gwneud y gweithgarwch.</u> | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br>Mae'r newidiadau arfaethedig yn cael gwared ar y cyfeiriad at fandiau ac yn adlewyrchu'r ffaith bod categori ychwanegol wedi'i gynnwys o dan Reol Sefydlog 4.3. |
| 4.5. Os (pa un ai o ganlyniad i newid mewn amgylchiadau neu am unrhyw reswm arall) nad yw'r hysbysiad a wneir gan Aelod mewn perthynas â<u>'r amser a dreuliwyd yn gwneud</u> gweithgarwch cofrestradwy <u>fel cyfartaledd wythnosol</u> bellach yn gywir, rhaid i'r Aelod, o fewn pedair wythnos, wneud hysbysiad arall o dan Reol Sefydlog 4. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br>Mae'r newidiadau arfaethedig yn adlewyrchu'r ffaith bod categori ychwanegol wedi'i gynnwys o dan Reol Sefydlog 4.3, ac, mewn perthynas â'r categori hwnnw, na fyddai Aelod yn gallu newid yr amser a dreuliwyd ganddo yn gwneud gweithgarwch untro drwy roi hysbysiad arall. |
| 4.6. Rhaid rhoi hysbysiad drwy lenwi a llofnodi'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd at y diben hwnnw a'i roi i'r Clerc. | **Cadw'r Rheol Sefydlog**<br>Rheol Sefydlog wedi'i chynnwys er gwybodaeth yn unig. |
| **5A. RHEOL SEFYDLOG 5A – Cofnodi buddiannau eraill yr Aelodau yn wirfoddol** | |
| <u>5A.1. Caiff yr Aelodau gofnodi buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr un o'r categorïau y mae rhaid cofrestru buddiannau</u> | **Rheol Sefydlog newydd**<br>Mae'r newid arfaethedig yn creu categori newydd gwirfoddol er mwyn galluogi'r Aelodau i gofnodi |

| | |
|---|---|
| odanynt yn unol â Rheol Sefydlog 2 neu gofnodi buddiannau odanynt yn unol â Rheol Sefydlog 3, 4 neu 5. | unrhyw fuddiannau ariannol neu fuddiannau eraill y maent yn dymuno eu cyhoeddi nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr un o'r categorïau gorfodol o dan Reol Sefydlog 2. |
| 5A.2. Rhaid rhoi'r hysbysiad o dan Reol Sefydlog 5A.1. drwy lenwi a llofnodi'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd at y diben hwnnw, a'i chyflwyno i'r Clerc. | Rheol Sefydlog newydd<br>Mae'r newid arfaethedig yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau ynghylch sut i roi unrhyw hysbysiad o dan Reol Sefydlog 5A.1. |
| 5A.3. Rhaid i'r Llywydd gadw cofnod o'r hysbysiadau a roddir gan yr Aelodau o dan Reol Sefydlog 5A.1. a rhaid iddo gyhoeddi'r cofnod a threfnu bod copi ar gael i'w archwilio gan yr Aelodau a chan y cyhoedd. | Rheol Sefydlog newydd<br>Mae'r newid arfaethedig yn rhoi gwybodaeth ynghylch cofnodi a chyhoeddi unrhyw hysbysiadau a roddir o dan Reol Sefydlog 5A.1. |

# Atodiad B: Y Rheolau Sefydlog, fel y'u diwygiwyd

## RHEOL SEFYDLOG 2 – Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau: Atodiad

### Y buddiannau sydd i'w cofrestru yng Nghofrestr Buddiannau'r Aelodau ac sydd, at ddibenion Rheol Sefydlog 2.6, i'w datgan cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Senedd.

### Cyffredinol

1. Wrth restru eu buddiannau cofrestradwy, dylai'r Aelodau roi sylw i unrhyw benderfyniadau, codau ymarfer neu nodiadau cyfarwyddyd perthnasol y gall y Senedd fod wedi'u mabwysiadu yn hyn o beth.

2. Rhaid i unrhyw weithgarwch y ceir tâl amdano ym meysydd cysylltiadau cyhoeddus a chynghori ac ymgynghori gwleidyddol mewn perthynas â swyddogaethau'r Senedd, gael ei gynnwys yn y rhan honno o'r gofrestr sy'n ymwneud â chyflogaeth, swydd neu broffesiwn am dâl. Mae'r cyfryw weithgarwch yn cynnwys unrhyw weithgarwch sy'n gysylltiedig ag unrhyw rai o drafodion y Senedd, noddi digwyddiadau yn adeiladau'r Senedd, a chyflwyno sylwadau i'r llywodraeth neu i unrhyw aelod o'r llywodraeth honno neu i'w staff.

3. Mae mwyafrif y buddiannau a bennir yn y categorïau isod yn cynnwys cyfeiriad at fuddiannau y meddir arnynt yn annibynnol gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod neu a roddir iddynt, a rhaid cofrestru'r rhain hefyd os yw'r buddiannau hynny yn hysbys i'r Aelod.

4. At ddibenion cofrestru a datgan buddiannau o dan Reol Sefydlog 2 a bennir yn yr Atodiad hwn:

   (i) ystyr partner Aelod yw priod neu bartner sifil iddo neu un o gwpl, pa un ai o'r un rhyw neu o'r rhyw arall, sy'n byw gyda'i gilydd, er nad ydynt yn briod, ac sy'n trin ei gilydd fel dau briod; a

   (ii) ystyr plentyn dibynnol yw unrhyw berson sydd, pan gofrestrir y buddiant, yn iau nag un ar bymtheng mlwydd oed neu yn iau na phedair ar bymtheng mlwydd oed ac yn derbyn addysg

llawn amser drwy fynychu sefydliad addysgol cydnabyddedig ac:

a) sy'n blentyn i'r Aelod;

b) sy'n llysblentyn i'r Aelod drwy briodas neu drwy bartneriaeth sifil;

c) sy'n blentyn a fabwysiadwyd yn gyfreithiol gan yr Aelod;

d) sy'n blentyn y mae'r Aelod yn bwriadu ei fabwysiadu yn gyfreithiol;

e) sy'n blentyn y bu'r Aelod yn ei gefnogi yn ariannol am o leiaf y chwe mis calendr blaenorol.

## Y Buddiannau Cofrestradwy

5. Dyma'r buddiannau cofrestradwy:

(i) swyddi cyfarwyddwyr, cyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth (ac eithrio, yn achos yr Aelod, aelodaeth o'r Senedd), y mae'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod yn cael tâl amdanynt, neu y mae gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, unrhyw fuddiant ariannol ynddynt; gan gynnwys:

a) yn achos yr Aelod yn unig, swm y tâl a gafwyd, neu y disgwylir ei gael, ar gyfer pob gweithgarwch cofrestradwy;

b) enwau cleientiaid pan fydd y buddiannau'n cynnwys gwasanaethau sy'n deillio o'i aelodaeth o'r Senedd, neu sy'n gysylltiedig â hynny mewn unrhyw fodd; ac

c) a yw'r buddiant yn ymwneud ag unrhyw gwmni cyhoeddus neu breifat neu unrhyw gorff arall sydd wedi tendro, neu sy'n tendro, am gontract gyda'r Comisiwn neu Lywodraeth Cymru, neu sy'n meddu ar gontract o'r fath.

(ii) rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol y mae eu gwerth yn uwch na'r hyn a ragnodir mewn unrhyw benderfyniad gan y Senedd, a dderbynnir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, oddi wrth gwmni, sefydliad neu berson ac sy'n deillio o aelodaeth o'r Senedd neu sy'n gysylltiedig â hynny mewn unrhyw fodd;

(iii) nawdd ariannol (a) fel ymgeisydd i'w ethol i'r Senedd, pan fydd y nawdd mewn unrhyw achos, hyd y gŵyr yr Aelod, yn fwy na 25 y

cant o gostau etholiad yr ymgeisydd, neu (b) fel Aelod o'r Senedd oddi wrth unrhyw unigolyn neu sefydliad. Wrth gofrestru buddiant o'r fath, rhaid i'r Aelod ddatgan a yw unrhyw nawdd o'r fath yn cynnwys unrhyw daliad i'r Aelod neu unrhyw fudd materol neu fantais faterol;

(iv) yn ddarostyngedig i unrhyw benderfyniad gan y Senedd, ymweliadau tramor a wneir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, sy'n deillio o'i aelodaeth o'r Senedd neu sy'n gysylltiedig â hynny mewn unrhyw fodd pan na fydd cost unrhyw ymweliad o'r fath wedi'i dalu'n llwyr gan yr Aelod neu ag arian a ddarparwyd gan y Senedd neu gan Senedd y Deyrnas Unedig neu unrhyw sefydliad y mae'r Senedd yn aelod ohono;

(v) unrhyw dir ac eiddo i'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, tir neu eiddo i bartner yr Aelod neu i unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, y mae iddo werth sylweddol fel y'i rhagnodwyd mewn unrhyw benderfyniad gan y Senedd neu y ceir incwm sylweddol ohono, ac eithrio unrhyw gartref a ddefnyddir at ddibenion preswylfa bersonol gan yr Aelod, partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod;

(vi) enwau cwmnïau neu gyrff eraill y mae gan yr Aelod, naill ai ar ei ben ei hun neu gyda phartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, neu ar eu rhan hwy, fuddiant llesiannol ynddynt, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod fuddiant llesiannol ynddynt, mewn cyfranddaliadau y mae eu gwerth ar y farchnad yn fwy nag un y cant o'r cyfalaf cyfranddaliadol a ddyroddwyd, neu'n llai nag un y cant ond yn fwy na swm a ragnodwyd mewn unrhyw benderfyniad gan y Senedd;

(vii) aelodaeth neu gadeiryddiaeth gyda thâl neu'n ddi-dâl a ddelir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, ar unrhyw gorff a ariennir yn llwyr neu'n rhannol â chyllid a ddarparwyd gan Gomisiwn y Senedd neu Lywodraeth Cymru, lle y mae'r Aelod yn gwybod, neu y dylai fod wedi gwybod, am y cyllid a ddarparwyd gan Gomisiwn y Senedd neu Lywodraeth Cymru.

# RHEOL SEFYDLOG 3 – Cofnodi cyflogaeth aelodau o deuluoedd Aelodau eraill gyda chymorth arian y Comisiwn.

## [Sylwch: mae gofyniad bod yn rhaid hysbysu o dan Reol Sefydlog 3 yn ychwanegol at unrhyw ofyniad bod yn rhaid i gyflogaeth partner neu blentyn dibynnol Aelod gael ei chofrestru o dan Reol Sefydlog 2. Os yw Rheol Sefydlog 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod gofrestru cyflogaeth priod neu blentyn dibynnol o dan y Rheol Sefydlog honno, rhaid i'r Aelod wneud hynny yn ychwanegol at unrhyw hysbysiad sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 3.]

3.1 Rhaid i Aelod sydd ar unrhyw adeg, gyda chymorth arian y Comisiwn, yn cyflogi, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, berson y mae'r Aelod hwnnw'n gwybod ei fod yn aelod o deulu Aelod arall roi hysbysiad o dan Reol Sefydlog 3, a hynny heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir yn Rheol Sefydlog 3.4.

3.2. Yn Rheol Sefydlog 3:

(i) ystyr "aelod o deulu" yw:

(a) partner Aelod;

(b) plentyn, ŵyr neu wyres Aelod;

(c) rhiant, taid neu nain Aelod;

(d) brawd neu chwaer Aelod;

(e) nai neu nith Aelod; neu

(f) ewythr neu fodryb Aelod;

(ii) ystyr "partner" yw priod, partner sifil neu un o gwpl pa un ai o'r un rhyw neu o'r rhyw arall sy'n byw gyda'i gilydd, er nad ydynt yn briod, ac sy'n trin ei gilydd fel dau briod;

(iii) mae'r ymadroddion "plentyn", "ŵyr", "wyres", "rhiant", "taid", "nain", "brawd", "chwaer", "ewythr" a "modryb" yr un mor gymwys i hanner-perthnasau, llys-berthnasau, perthnasau maeth a pherthnasau mabwysiadol ac maent yn gymwys hefyd i bersonau sydd â'r berthynas o dan sylw â phartner yr Aelod;

(iv) ystyr "arian y Comisiwn" yw symiau a delir gan y Comisiwn ar ffurf lwfansau o dan adrannau 20, 21 neu 53 o'r Ddeddf.

3.3. Rhaid i'r hysbysiad sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 3 gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

(i) *[Rheol Sefydlog wedi'i dileu drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar xx]*

(ii) enw'r Aelod neu enwau'r Aelodau y mae'r cyflogai yn aelod o'i deulu neu o'u teulu;

(iii) enw llawn y cyflogai;

(iv) perthynas y cyflogai â'r Aelod neu'r Aelodau y cyfeirir atynt yn(ii);

(v) ym mha swyddogaeth y mae'r cyflogai wedi'i gyflogi, gan gynnwys unrhyw deitl swydd;

(vi) y dyddiad y dechreuodd y gyflogaeth;

(vii) os yw'r gyflogaeth wedi dod i ben, y dyddiad y daeth i ben; ac

(viii) yr oriau y mae'r cyflogai wedi'i gontractio i'w gweithio bob wythnos.

3.4. Rhaid i'r hysbysiad gael ei roi:

(i) cyn pen wyth wythnos ar ôl y dyddiad y bydd yr Aelod yn tyngu'r llw teyrngarwch neu'n rhoi'r cadarnhad teyrngarwch; neu

(ii) cyn pen pedair wythnos ar ôl:

(a) y tro cyntaf i'r aelod o deulu gael taliad gyda chymorth arian y Comisiwn;

(b) y dyddiad y daw'r cyflogai yn aelod o deulu Aelod arall; neu

(c) y dyddiad y daw'r Aelod yn ymwybodol am y tro cyntaf o'r ffaith bod y cyflogai yn aelod o deulu Aelod arall,

pa un bynnag yw'r olaf.

3.5. Os:

(i) oes hysbysiad wedi'i roi o dan Reol Sefydlog 3; a

(ii) bod unrhyw newid wedi bod yn yr wybodaeth a gynhwyswyd yn yr hysbysiad hwnnw,

rhaid i'r Aelod, cyn pen pedair wythnos ar ôl dyddiad y newid hwnnw, roi hysbysiad ynglŷn â'r newid hwnnw.

3.6. Rhaid i hysbysiad o dan Reol Sefydlog 3.1 neu o dan Reol Sefydlog 3.5 gael ei roi drwy lenwi a llofnodi'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd at y diben a'i chyflwyno i'r Clerc.

3.7 Rhaid i'r Llywydd gadw cofnod o'r hysbysiadau a roddir gan yr Aelodau o dan Reol Sefydlog 3 a rhaid iddo gyhoeddi'r cofnod a threfnu bod copi ar gael i'w archwilio gan yr Aelodau a chan y cyhoedd, ond nid oes angen cyhoeddi enw'r cyflogai a ddarperir o dan Reol Sefydlog 3.3(iii).

3.8. Mae'r Aelodau o dan ddyletswydd barhaus i sicrhau bod y cofnod o hysbysiadau yn cynnwys y manylion cywir a hysbyswyd ganddynt o dan Reolau Sefydlog 3.1 neu 3.5, a hynny drwy ei archwilio o dro i dro.

# RHEOL SEFYDLOG 4 – Cofnodi'r Amser y bydd Aelod yn Ymwneud â Gweithgarwch Cofrestradwy

## Cyffredinol

4.1. Pan fydd yn ofynnol i Aelod gofrestru buddiant, yn unol â Rheol Sefydlog 2.2, rhaid i'r Aelod hwnnw ar yr un pryd, pan fydd y buddiant hwnnw hefyd yn weithgarwch cofrestradwy, roi hysbysiad o dan Reol Sefydlog 4.

4.2. At ddibenion Rheol Sefydlog 4, mae "gweithgarwch cofrestradwy" yn fuddiant cofrestradwy sy'n dod o fewn is-baragraff (i) o baragraff 5 o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 ac sy'n ymwneud â'r Aelod ei hun (yn hytrach na phartner yr Aelod neu blentyn dibynnol i'r Aelod).

## Hysbysiad

4.3. Mae hysbysiad i'w roi drwy gyfeirio at y categorïau canlynol:

(i) Categori 1: Llai na 5 awr yr wythnos;

(ii) Categori 2: Rhwng 5 ac 20 awr yr wythnos;

(iii) Categori 3: Mwy nag 20 awr yr wythnos;

(iv) Categori 4: Gweithgarwch untro, gyda'r amser perthnasol a dreuliwyd wedi'i bennu.

4.4. Rhaid i'r hysbysiad nodi i ba un o'r categorïau hynny y bydd cyfartaledd nifer yr oriau yr wythnos y bydd yr Aelod yn ei dreulio (neu y disgwylir iddo ei dreulio) yn gwneud pob gweithgarwch cofrestradwy yn berthnasol neu, yn achos gweithgarwch untro, faint o amser a dreuliwyd gan yr Aelod yn gwneud y gweithgarwch.

4.5. Os (pa un ai o ganlyniad i newid mewn amgylchiadau neu am unrhyw reswm arall) nad yw'r hysbysiad a wneir gan Aelod mewn perthynas â'r amser a dreuliwyd yn gwneud gweithgarwch cofrestradwy fel cyfartaledd wythnosol bellach yn gywir, rhaid i'r Aelod, o fewn pedair wythnos, wneud hysbysiad arall o dan Reol Sefydlog 4.

4.6. Rhaid rhoi hysbysiad drwy lenwi a llofnodi'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd at y diben hwnnw a'i roi i'r Clerc.

## Cyhoeddi

4.7. Rhaid i'r Llywydd gadw cofnod o'r hysbysiadau a wneir gan Aelodau o dan Reol Sefydlog 4 a rhaid iddo gyhoeddi'r cofnod a threfnu bod copi ar gael i'w archwilio gan yr Aelodau a'r cyhoedd.

## Ffurf yr Hysbysiad a'r Cofnod

4.8. Caniateir cyfuno'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 4.6 â'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 2.2.

4.9. Caniateir cyfuno'r cofnod o hysbysiadau a gedwir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 4.7 â'r Gofrestr Fuddiannau a gedwir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 2.1.

# RHEOL SEFYDLOG 5 – Cofnodi Aelodaeth o Gymdeithasau

5.1. Rhaid i unrhyw Aelod roi hysbysiad ynglŷn ag unrhyw aelodaeth, neu safle o reolaeth neu ofalaeth gyffredinol, mewn cymdeithas breifat neu glwb preifat sydd â gofynion ynglŷn â derbyn aelodau.

5.2. At ddibenion Rheol Sefydlog 5.1, nid yw "gofynion ynglŷn â derbyn aelodau" yn cynnwys:

(i) y gofyniad bod yn rhaid talu tanysgrifiad; na

(ii) cytuno â thelerau ac amodau aelodaeth yn y gymdeithas neu'r clwb a'u llofnodi (ac eithrio unrhyw deler ac amod sy'n ymwneud â dewis aelodau).

5.3. Rhaid i'r Llywydd gadw a chyhoeddi cofnod o hysbysiadau'r Aelodau ynglŷn â'r materion a nodir yn Rheol Sefydlog 5.1 a rhaid trefnu bod copïau ar gael i'w harchwilio gan yr Aelodau a'r cyhoedd.

5.4. Rhaid i'r hysbysiadau gael eu gwneud drwy lenwi ffurflen a ragnodir gan y Llywydd.

5.5. Cyn pen wyth wythnos ar ôl i Aelod dyngu'r llw teyrngarwch neu roi'r cadarnhad cyfatebol, rhaid iddo lenwi'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd a llofnodi'r ffurflen a'i chyflwyno i'r Clerc.

5.6. Cyn pen pedair wythnos ar ôl i aelodaeth neu newid aelodaeth ddigwydd, rhaid i Aelod hysbysu'r Llywydd drwy lenwi'r ffurflen ragnodedig a llofnodi'r ffurflen a'i chyflwyno i'r Clerc.

5.7. Rhaid peidio â barnu bod y ffurflen y cyfeirir ati yn Rheolau Sefydlog 5.5 neu 5.6 wedi'i chyflwyno nes i'r Clerc ei chael.

5.8. Mae'r Aelodau o dan ddyletswydd barhaus i sicrhau bod y cofnod o hysbysiadau yn cynnwys y manylion cywir a hysbyswyd ganddynt o dan Reolau Sefydlog 5.5 neu 5.6, a hynny drwy ei archwilio o dro i dro.

# RHEOL SEFYDLOG 5A – Cofnodi buddiannau eraill yr Aelodau yn wirfoddol

5A.1. Caiff yr Aelodau gofnodi buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr un o'r categorïau y mae rhaid cofrestru buddiannau odanynt yn unol â Rheol Sefydlog 2 neu gofnodi buddiannau odanynt yn unol â Rheol Sefydlog 3, 4 neu 5.

5A.2. Rhaid rhoi'r hysbysiad o dan Reol Sefydlog 5A.1. drwy lenwi a llofnodi'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd at y diben hwnnw, a'i chyflwyno i'r Clerc.

5A.3. Rhaid i'r Llywydd gadw cofnod o'r hysbysiadau a roddir gan yr Aelodau o dan Reol Sefydlog 5A.1. a rhaid iddo gyhoeddi'r cofnod a threfnu bod copi ar gael i'w archwilio gan yr Aelodau a chan y cyhoedd.